# CYNGOR SIR Y FFLINT
# 1 MAWRTH 2018

Cofnodion cyfarfod Cyngor Sir y Fflint Cyngor Sir y Fflint a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Neuadd y Sir, Yr Wyddgrug CH7 6NA Dydd Iau, 1 Mawrth 2018

**YN BRESENNOL: Cynghorydd Brian Lloyd (Cadeirydd)**
Cynghorwyr: Mike Allport, Bernie Attridge, Janet Axworthy, Glyn Banks, Haydn Bateman, Marion Bateman, Sean Bibby, Derek Butler, Clive Carver, Geoff Collett, Bob Connah, David Cox, Paul Cunningham, Jean Davies, Rob Davies, Ron Davies, Chris Dolphin, Rosetta Dolphin, Ian Dunbar, Andy Dunbobbin, David Evans, Veronica Gay, George Hardcastle, David Healey, Gladys Healey, Patrick Heesom, Cindy Hinds, Andrew Holgate, Dave Hughes, Kevin Hughes, Dennis Hutchinson, Joe Johnson, Paul Johnson, Christine Jones, Richard Jones, Tudor Jones, Richard Lloyd, Mike Lowe, Dave Mackie, Hilary McGuill, Billy Mullin, Mike Peers, Michelle Perfects, Neville Phillips, Mike Reece, Ian Roberts, Aaron Shotton, Paul Shotton, Ralph Small, Ian Smith, Carolyn Thomas, Owen Thomas, Martin White, Andy Williams, David Wisinger ac Arnold Woolley.

**YMDDIHEURIADAU:**
Cynghorwyr Chris Bithell, Sian Braun, Helen Brown, Adele Davies-Cooke, Mared Eastwood, Carol Ellis, Ray Hughes, Rita Johnson, Colin Legg, Ted Palmer, Vicky Perfect, Neville Phillips, Tony Sharps a David Williams.

**HEFYD YN BRESENNOL:**
Prif Weithredwr, Prif Swyddog (Llywodraethu), Prif Swyddog (Cymuned a Menter), Prif Swyddog (Newid Sefydliadol (1), Prif Swyddog (Newid Sefydliadol (2), Prif Swyddog (Cynllunio a'r Amgylchedd), Prif Swyddog (Gwasanaethau Cymdeithasol), Rheolwr Cyllid Corfforaethol, Rheolwr Refeniw, Uwch Reolwr Adnoddau Dynol a Datblygu Sefydliadol, Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd, Rheolwr Gwasanaeth Menter ac Adfywio, Rheolwr Budd-daliadau, Rheolwyr Cyllid a Swyddog Y Pwyllgor.

## 104. CYFLWYNIADAU

Croesawodd y Prif Weithredwr y Tîm Effeithlonrwydd Ynni i'r cyfarfod.

Eglurodd y Prif Weithredwr fod ymdrechion y Tîm Effeithlonrwydd Ynni wedi'u cydnabod yn ddiweddar gyda'r Gwobrau Cenedlaethol canlynol.

- Enillydd Cyffredinol – Cyngor / Awdurdod Lleol Rhanbarthol y Flwyddyn: a oedd yn cydnabod ymrwymiad y Cyngor i hyrwyddo effeithlonrwydd ynni o fewn y rhanbarth.

- Cymeradwyaeth Uchel - Ymgyrchydd Cefnogaeth i Gwsmeriaid Diamddiffyn y Flwyddyn: a oedd yn cydnabod ymrwymiad y Cyngor i wella bywydau pobl ddiamddiffyn drwy effeithlonrwydd ynni o fewn y rhanbarth.

Dywedodd y Prif Weithredwr fod y gwobrau'n cydnabod gwaith arloesol y Cyngor a'i bartneriaid wrth fynd i'r afael â thlodi tanwydd yn ogystal â'i ymateb

aml-asiantaeth wrth ddiwallu anghenion aelwydydd diamddiffyn. Cafodd y rhaglen Cartrefi Iach, Pobl Iach ei chydnabod am ei dull sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn wrth fynd i'r afael ag anghenion unigol i wella iechyd a lles. Derbyniodd y rhaglen Cartrefi Iach, Pobl Iach gydnabyddiaeth yn y categorïau canlynol:

- Gweithredu Ynni Cenedlaethol a Scottish Power – Gwobr 'Arwr Gwres': a oedd yn cydnabod unigolion a oedd wedi gwneud cyfraniad sylweddol i helpu pobl sy'n byw mewn tlodi tanwydd yn eu cymunedau lleol, naill ai yn y gwaith neu drwy wirfoddoli. Roedd Joanna Seymour, Rheolwr Prosiect Cartrefi Iach, Pobl Iach Gogledd Cymru, yn un o'r pymtheg enillydd a ddewiswyd ar draws Cymru a Lloegr i dderbyn y wobr hon.

Mynegodd y Cadeirydd ei longyfarchiadau i'r Tîm Effeithlonrwydd Ynni a Joanna Seymour am ennill y wobr fawreddog a'u gwahodd i dderbyn eu gwobrau.

Dywedodd y Cynghorydd Bernie Attridge fod gwaith y Tîm Effeffeithlonrwydd Ynni yn effeithio ar lawer o'r gwasanaethau a oedd yn cael eu darparu gan y Cyngor a mynegodd ei longyfarchiadau, ar ran y Cyngor ac ar ran y Cynghorydd Chris Bithell, Aelod Cabinet Cynllunio a'r Amgylchedd, i'r Tîm ac i Joanna ar eu llwyddiannau.

Dywedodd y Cynghorydd Attridge fod y Tîm Effeithlonrwydd Ynni wedi darparu cymorth i 1408 o aelwydydd y llynedd ac, ar gyfartaledd, wedi arbed £368 i breswylwyr, a oedd yn derbyn mesurau effeithlonrwydd ynni neu gyngor, oddi ar eu biliau tanwydd. Rhoddodd amlinelliad cryno o amcanion y Tîm a oedd wedi mabwysiadu dull yn canolbwyntio ar yr unigolyn i fynd i'r afael ag angen, gwella iechyd a lles a chreu amgylchedd cartref diogel a chynnes. Roedd gwaith y Tîm yn canolbwyntio ar y pedwar prif faes canlynol:

- Diogelwch personol a chartref
- Cynyddu incwm a chymorth teulu / personol
- Gwres fforddiadwy
- Iechyd a lles

Mynegodd y Cynghorydd Glyn Banks ei longyfarchiadau i'r Tîm Effeithlonrwydd Ynni ac i Joanna am y cymorth roeddent wedi'i ddarparu i breswylwyr yn ei Ward. Cyfeiriodd y Cynghorydd Banks at waith y Ganolfan Cyngor ar Ynni Gogledd Cymru ac anogodd Aelodau i gysylltu â'r gwasanaeth hwn a'r Tîm Effeithlonrwydd Ynni am gymorth a chefnogaeth.

## 105. <u>COFNODION</u>

Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 30 Ionawr 2018.

<u>Cywirdeb</u>

Wrth gyfeirio at dudalen 10, dywedodd y Cynghorydd Clive Carver, yn dilyn y gohiriad yng nghyfarfod mis Ionawr, ei fod wedi egluro bod y penderfyniad blaenorol am ryddhad ardrethi yn benderfyniad gan y Cabinet yn hytrach na'r

Cyngor. Nid oedd yr eglurhad hwn yn y cofnodion drafft gofynnodd i'w gynnwys.

**PENDERFYNWYD:**

Yn amodol ar y newid uchod, cymeradwyo'r cofnodion fel cofnod cywir a'u llofnodi gan y Cadeirydd.

## 106. DATGAN CYSYLLTIAD

Ni dderbyniwyd dim.

## 107. CYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD

Roedd copi o Gyhoeddiadau'r Cadeirydd wedi ei ddosbarthu i'r holl Aelodau cyn y cyfarfod.

Rhoddodd y Cadeirydd sylwadau penodol ar ymweliad Mrs. Angela Davies, cymhorthydd cludiant personol, a oedd wedi'i henwebu gan fam am ei phroffesiynoldeb a'r gofal rhagorol a oedd wedi'i ddarparu i blentyn anabl yn ei gofal.

Mynegodd y Cynghorydd Carolyn Thomas ei gwerthfawrogiad am y gwasanaeth a ddarparwyd gan Mrs. Davies a chymeradwyodd waith yr holl gymorthyddion ysgol. Cymerodd y cyfle hefyd i fynegi ei hedmygedd a'i chefnogaeth tuag at waith Strydwedd a'r Tîm Cynllunio Rhag Argyfwng yn ystod y tywydd garw presennol.

Mynegodd y Cynghorydd Sean Bibby ei werthfawrogiad i'r Cadeirydd am dderbyniad a chydnabyddiaeth y Cyngor o'r gwasanaeth a ddarparwyd gan Mrs. Angela Davies. Siaradodd hefyd o blaid y gwaith a'r ymroddiad a ddarparwyd gan gymorthyddion cludiant ysgol a'r gyrwyr.

Siaradodd y Cynghorydd Christine Jones o blaid y gwasanaethau a ddarparwyd gan weithwyr gofal cymdeithasol a gweithwyr cymdeithasol a'u hymrwymiad yn ystod y tywydd garw presennol.

Cymerodd y Cadeirydd y cyfle i atgoffa'r Aelodau o'r Cyngerdd Elusen Dydd Gŵyl Dewi a oedd yn cael ei gynnal yn Eglwys y Santes Fair, Yr Wyddgrug y noson honno.

Dywedodd y Cynghorydd Paul Cunningham ei fod wedi mynychu dathliad o Frigâd Ambiwlans Sant Ioan, a gynhaliwyd yn Queensferry, ar ran y Cadeirydd. Roedd nifer y bobl ifanc a oedd yn gysylltiedig â Chadetiaid Ambiwlans Sant Ioan wedi creu argraff fawr arno.

Gwnaeth Cadeirydd sylw penodol ar Gyngerdd Gala Prifysgol Glyndŵr a Cherddorfa Symffoni Wrecsam a gynhaliwyd ym Mhrifysgol Glyndŵr Wrecsam, a oedd wedi bod yn ddigwyddiad llwyddiannus a phleserus iawn.

## 108. DEISEBAU

Ni dderbyniwyd dim.

## 109. CWESTIYNAU GAN Y CYHOEDD

Ni dderbyniwyd dim.

Cyfeiriodd y Prif Weithredwr at gyfarfod blaenorol y Cyngor Sir pan godwyd nifer o gwestiynau gan y cyhoedd ynglŷn â chyllid ysgolion. Roedd yr holwyr wedi adrodd eu bod wedi cael croeso cynnes ac wedi gwerthfawrogi ansawdd yr atebion a'r dadleuon a gafwyd am gyllid ysgolion.

## 110. CWESTIYNAU

Ni dderbyniwyd dim.

## 111. RHYBUDD O GYNNIG

Ni dderbyniwyd dim.

## 112. CYDNABYDDIAETH I CLARE BUDDEN

Arweiniodd y Cadeirydd y teyrngedau i gydnabod y cyfraniad a wnaed i'r Cyngor gan Clare Budden, Prif Swyddog (Cymuned a Menter) a oedd yn gadael yr Awdurdod ddiwedd Ebrill 2018 i ymuno â Chymdeithas Dai Pennaf. Mynegodd ddiolch personol i Clare am ei chefnogaeth a mynegodd ddiolch hefyd ar ran ei breswylwyr am ei hymroddiad wrth ddatrys materion tai yn ei ward.

Llongyfarchwyd Clare ar ei swydd newydd gan y Cynghorydd Aaron Shotton a dymunodd bob llwyddiant iddi yn y dyfodol. Cyfeiriodd at y cyfraniad a wnaed i'r Cyngor a phreswylwyr Sir y Fflint gan Clare ac fe soniodd am ei hetifeddiaeth drwy ei chyflawniadau gan gyfeirio at waith ar y bleidlais trosglwyddo stoc, Safon Ansawdd Tai Cymru, a'r datblygiad newydd o dai Cyngor, fel enghreifftiau o'r rhaglenni a oedd wedi'u gwthio drwodd. Gwnaeth y Cynghorydd Shotton sylw ar y cynnydd a wnaed gan yr Awdurdod yn y sector tai ers i Clare gael ei phenodi ac fe gyfeiriodd at ei hymrwymiad i liniaru effaith newidiadau Diwygio'r Gyfundrefn Les ar denantiaid Sir y Fflint. Diweddodd ei deyrnged drwy ddiolch i Clare am ei gwaith ym maes Datblygu Economaidd. Siaradodd am y parch uchel a ddengys tuag at Clare yn Sir y Fflint a dywedodd ei fod yn edrych ymlaen at weithio gyda hi drwy wasanaeth ar y cyd gyda Chymdeithas Dai Pennaf yn y dyfodol.

Diolchodd y Cynghorydd George Hardcastle i Clare am ei gwaith ardderchog i wella a datblygu tai yn Sir y Fflint ac fe soniodd am y parch uchel yr oedd gan y Cynghorydd Ron Hampson, Cyn-Gadeirydd Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymuned a Menter, tuag ati. Dywedodd ei bod yn golled enfawr i'r Cyngor ond ei fod yn dymuno pob llwyddiant iddi yn ei swydd newydd gyda Chymdeithas Dai Pennaf.

Diolchodd y Cynghorydd Rosetta Dolphin i Clare am ei hymrwymiad a'i hymroddiad a dywedodd ei bod yn edrych ymlaen at gysylltu gyda Clare yn y dyfodol drwy waith Cymdeithas Dai Pennaf.

Dymunodd y Cynghorydd Mike Peers bob llwyddiant i Clare yn ei swydd newydd ac fe gyfeiriodd at ei chyflawniadau gyda'r Awdurdod yn y sector tai, gan amlygu gweithrediad Safon Ansawdd Tai Cymru, y Rhaglen Tai ac Adfywio Strategol a'r Rhaglen Tai Newydd fel enghreifftiau. Cyfeiriodd hefyd at ei chymhelliant wrth ddarparu tai fforddiadwy yn Sir y Fflint. Soniodd am rinweddau personol Clare ac fe ddywedodd ei bod hi'n unigolyn a oedd yn hawdd mynd ati ac yn fodlon cynnig cymorth a chefnogaeth heb betruso. Ail-bwyleisiodd y golled a oedd hyn i'r Cyngor ond gwnaeth sylw ar y cyfle i elwa o sgiliau a gwybodaeth Clare yn y dyfodol drwy ei gwaith gyda Chymdeithas Tai Pennaf.

Soniodd y Cynghorydd Ian Dunbar am yr arbenigedd yr oedd Clare wedi'i ddarparu i gyfarfodydd Pwyllgor ac yn benodol y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymuned a Menter a'r gefnogaeth a oedd wedi'i rhoi i Aelodau o ran materion tai yn eu wardiau. Cyfeiriodd at amgylchiadau trasig y tân yn Nhŵr Grenfell a'r goblygiadau ar gyfer yr holl adeiladau uchel yn Sir y Fflint a mynegodd ganmoliaeth am sut yr oedd Clare a'i thîm wedi ymateb i'r pryderon a'r problemau dybryd a godwyd gan breswylwyr ac Aelodau a'r gefnogaeth barhaus a ddarparwyd. Dymunodd y Cynghorydd Dunbar y gorau i Clare ar ran y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymuned a Menter.

Mynegodd y Cynghorydd Ian Roberts ddiolch personol i Clare am ei chyfraniad sylweddol a'i hymrwymiad i raglen adfywio y Fflint ac fe siaradodd am ei brwdfrydedd a'i chymhelliant i weld yr hen fflatiau deulawr yn cael eu dymchwel yn y Fflint er mwyn adeiladu tai newydd o safon a oedd wedi'u croesawu gan breswylwyr.

Diolchodd y Cynghorydd Sean Bibby i Clare am y cymorth a'r gefnogaeth a ddarparodd iddo fel aelod newydd etholedig a hefyd am ei gwaith i wella tai cymdeithasol yn Sir y Fflint.

Dywedodd y Cynghorydd Derek Butler mai braint oedd cael Clare yn Uwch Swyddog iddo ac fe siaradodd am ei ffydd yn ei gallu. Dywedodd fod Clare wedi bod yn gynghorwr pan oedd angen ac yn ennyn parch ar lefel ranbarthol a chenedlaethol fel cynrychiolydd o'r Awdurdod. Soniodd am ei chefnogaeth dewr a'i chyfraniad at Gynghrair Mersi a'r Ddyfrdwy, Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru a'r Fargen Twf. Dywedodd y Cynghorydd Butler fod yr Arglwydd Barry Jones wedi cysylltu ag ef i'w chanmol.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Patrick Heesom at benodiad Clare i'r Cyngor a oedd wedi digwydd yn ystod cyfnod anodd, a dywedodd ei fod yn ddiolchgar am yr amser yr oedd Clare wedi'i dreulio gyda'r Awdurdod. Cefnogodd yr holl deyrngedau a wnaed a chanmolodd ei pherfformiad, ei sgiliau a'i gallu i weithio gydag Aelodau a swyddogion i gyflawni'r canlyniadau gorau.

Dywedodd y Cynghorydd Billy Mullin mai braint oedd gweithio gyda Clare ac fe soniodd am y cynnydd a wnaed yn y sector tai yn Sir y Fflint, safon y tai a ddarparwyd a bodlonrwydd tenantiaid ar draws Sir y Fflint. Yn ogystal â hynny, derbyniodd Clare ganmoliaeth gan y Cynghorydd Mullin am ei gwaith ar fenter

economaidd a soniodd am y gefnogaeth a roddodd wrth gefnogi diwydiant a masnach yn ei ward ef.

Dywedodd y Cynghorydd Hilary McGuill y byddai'r holl Aelodau, swyddogion a staff o fewn ei hadran yn gweld ei cholli. Dywedodd fod Clare, drwy ei chymhelliant a'i phersonoliaeth, wedi llwyddo i wireddu ei gweledigaeth ac, ar ran Grŵp y Democratiaid Rhyddfrydol, dymunodd bob llwyddiant iddi yn ei gyrfa newydd.

Cefnogodd y Cynghorydd Bernie Attridge y teyrngedau a wnaed i Clare a diolchodd iddi am ei chefnogaeth ar lefel bersonol. Gwnaeth sylw ar y weledigaeth i sefydlu Cartrefi Gogledd Ddwyrain Cymru a dywedodd, er gwaethaf yr anawsterau cychwynnol, fod Clare wedi llwyddo i wireddu'r weledigaeth hon diolch i'w brwdfrydedd a'i chymhelliant. Dywedodd fod Clare wedi bod yn Swyddog ardderchog ym mhob agwedd a diolchodd iddi am ei gwaith yn Sir y Fflint gan ddymuno'n dda iddi ar gyfer y dyfodol.

Wrth ddod i gasgliad, siaradodd y Prif Weithredwr ar ran y tîm o uwch swyddogion a thalodd deyrnged i Clare. Cyfeiriodd at ei rhinweddau personol a phroffesiynol a werthfawrogwyd yn fawr gan yr Awdurdod a dymunodd bob llwyddiant iddi yn ei swydd newydd gyda Chymdeithas Dai Pennaf ac yn ei gyrfa yn y dyfodol.

Yn dilyn cyflwyniad gan y Cadeirydd ar ran y Cyngor, diolchodd Clare i'r Aelodau a'r Swyddogion am eu teyrngedau twym-galon a dywedodd ei bod wedi bod yn fraint i gael gweithio yn yr ardal lle cafodd ei geni a'i magu, yn yr ardal roedd ei theulu'n byw. Dywedodd ei bod wedi gweithio gyda'r Awdurdod am gyfnod hirach nag unrhyw swydd flaenorol oherwydd ei bod yn mwynhau'r gwaith ac yn teimlo dyletswydd bersonol i wneud ei gorau i wneud newid cadarnhaol yn Sir y Fflint ac i wella canlyniadau yn y sector tai. Diolchodd i'r Aelodau am yr heriau a gyflwynwyd a oedd yn bwysig gan fod yr Aelodau'n cynrychioli anghenion a safbwyntiau preswylwyr Sir y Fflint ar y gwasanaethau a ddarperir ar eu cyfer. Dywedodd mai uchelgeisiau'r Aelodau, mewn perthynas â'r rhaglen Cartrefi Newydd a'r rhaglen datblygiadau newydd ar gyfer tai cyngor, oedd mewn gwirionedd wedi sicrhau llwyddiant y cynlluniau. Roedd yn gobeithio datblygu partneriaeth gryfach gyda'r Awdurdod drwy ei swydd newydd gyda Chymdeithas Dai Pennaf a chydweithio gyda'r Awdurdod ar ystod o wasanaethau i gael effaith gadarnhaol ar fywydau preswylwyr Sir y Fflint.

## 113. GOSOD TRETH Y CYNGOR AR GYFER 2018-19

Cyflwynodd y Rheolwr Refeniw'r adroddiad i gytuno ar ffioedd Treth y Cyngor a phenderfyniadau statudol cysylltiol ar gyfer 2018-19. Darparodd wybodaeth gefndirol a dywedodd fod Treth y Cyngor am gynyddu o 6.71% o braesept Sir y Fflint. Eglurodd fod Treth y Cyngor yn cynnwys tri thâl gwahanol sy'n penderfynu ar y lefel gyffredinol o Dreth y Cyngor a godir yn erbyn bob eiddo. Roedd y rhain yn cynnwys praesept y Cyngor Sir yn ogystal â phraeseptau Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru a phraeseptau Cyngor Tref a Chymuned.

Eglurodd y Rheolwr Refeniw y byddai praesept Sir y Fflint ar gyfer 2018/19 yn cael ei osod ar ffi Band D o £1,177.60 a fyddai'n cynhyrchu incwm o

£75,172M ar gyfer yr Awdurdod a fyddai o gymorth i ariannu costau rhedeg gwasanaethau lleol yn rhannol. Dywedodd y Rheolwr Refeniw, fel rhan o osod Treth y Cyngor ar gyfer 2018/19, y byddai'r Cyngor hefyd yn talu praesept o £16,477M i Gomisiynydd yr Heddlu a Throsedd ar gyfer Gogledd Cymru (sef ffi Band D o £258.12 a oedd yn gynnydd o 3.79%). Dywedodd hefyd y byddai'r praesept cyfunol ar gyfer y 34 Cyngor Tref a Chymuned yn £2,847M a fyddai, ar gyfartaledd, yn cyfateb i ffi Band D o oddeutu £44.60. Yn gryno, byddai'r Awdurdod yn codi ffioedd Treth y Cyngor o £94,496M ar gyfer 2018/19.

Dywedodd y Rheolwr Refeniw fod Treth y Cyngor fel arfer yn cael ei osod ar gyfradd Band D safonol a oedd yn arwain at lefelau Treth y Cyngor is ar gyfer yr eiddo ym Mandiau A i C a lefelau uwch ar gyfer yr eiddo ym Mandiau E i I. Ar gyfer 2018/19, nodwyd y lefelau Treth y Cyngor a argymhellir ar gyfer pob band eiddo ac ar gyfer ardaloedd Cyngor Tref a Chymuned yn Atodiad 1 yr adroddiad.

Fe gyfeiriodd y Rheolwr Refeniw at y prif ystyriaethau, fel y manylir yn yr adroddiad. Gwnaeth sylw ar y polisïau presennol a'r penderfyniadau blaenorol a wnaed gan y Cyngor a chyfeiriodd at gynllun premiwm Treth y Cyngor a'r angen i gefnogi parhad arfer y polisi i beidio â darparu gostyngiad o ran lefel ffioedd Treth y Cyngor ar gyfer ail gartrefi a chartrefi gwag tymor hir. Hefyd, lle nad oedd eithriadau, i godi'r gyfradd Premiwm Treth y Cyngor o 50% yn uwch na chyfradd safonol Treth y Cyngor fel rhan o strategaeth ehangach i annog perchnogion i wneud defnydd o gartrefi gwag tymor hir ac, mewn rhai achosion, ail gartrefi.

Wrth ddod i gasgliad tynnodd y Rheolwr Refeniw sylw at yr angen i gymeradwyo swyddogion dynodedig i fynd ymlaen â chamau cyfreithiol ac ymddangos ar ran y Cyngor yn Llys yr Ynadon am drethi nad ydynt wedi eu talu.

Cynigiodd y Cynghorydd Aaron Shotton gefnogi'r argymhellion a diolchodd i'r Rheolwr Refeniw a'i dîm am eu gwaith caled wrth gyflawni'r broses flynyddol o osod Treth y Cyngor fel rhan o strategaeth gyffredinol y gyllideb.

Gofynnodd y Cynghorydd Mike Peers a oedd hi'n bosib darparu dadansoddiad o'r ffi o 6.71% yn y biliau er mwyn darparu eglurder i breswylwyr o ran y 5% a'r ffi o 1.71% ar gyfer addysg. Eglurodd y Rheolwr Refeniw nad oedd modd darparu dadansoddiad o braesept y Cyngor ar fil Treth y Cyngor oherwydd dim ond un ffi y oedd modd ei dangos ar gyfer Sir y Fflint, fodd bynnag, gellir darparu gwybodaeth ychwanegol drwy wybodaeth cyllideb atodol ar wefan y Cyngor. Cadarnhaodd y Prif Weithredwr bod yr Awdurdod wedi'i gyfyngu o ran yr wybodaeth y gallai ei roi ar fil Treth y Cyngor a dywedodd y byddai'r wybodaeth atodol, a fydd ar gael ar adeg dosbarthu'r biliau, yn gwella dealltwriaeth.

Pwysleisiodd y Cynghorydd Richard Jones yr angen i ddarparu eglurder i breswylwyr o ran y ffi Treth y Cyngor o 6.71%. Cyfeiriodd at y polisi o beidio â chaniatáu gostyngiadau ar ail gartrefi a chartrefi gwag tymor hir a chwestiynodd y rheswm dros ddefnyddio'r geiriad 'yn y rhan fwyaf o achosion' ym mharagraff 1.07. Eglurodd y Rheolwr Refeniw fod rhai sefyllfaoedd y lle gellid eithrio eiddo heb eu dodrefnu na'u preswylio dan ddarpariaethau statudol eraill wedi'u nodi yn neddfwriaeth Treth y Cyngor, gan ddefnyddio preswylydd yn symud i gartref gofal fel enghraifft.

**PENDERFYNWYD:**

(a) Gosod Treth y Cyngor 2018-19 fel y nodir yn Atodiad 1 i'r adroddiad;

(b) Bod parhau â'r polisi o beidio darparu gostyngiad yn lefel ffioedd Treth y Cyngor am ail gartrefi a chartrefi gwag hirdymor yn cael ei gefnogi. Hefyd lle nad oes eithriadau, i godi'r gyfradd Premiwm Treth y Cyngor o 50% yn uwch na chyfradd safonol Treth y Cyngor am ail gartrefi ac anheddau gwag hirdymor; a

(c) Bod cymeradwyaeth yn cael ei roi i swyddogion dynodedig i fynd ymlaen â chamau cyfreithiol ac ymddangos ar ran y Cyngor yn Llys yr Ynadon am drethi nad ydynt wedi eu talu.

**114. CYLLIDEB CRONFA'R CYNGOR 2017/18 A 2018/19 - DEFNYDDIO CRONFA WRTH GEFN A GWEDDILL**

Cafwyd adroddiad ar lafar gan y Prif Weithredwr i gynghori'r Cyngor ar ganlyniad arfaethedig y gronfa wrth gefn a gweddill ar ddiwedd y flwyddyn ariannol 2017/18 a'r posibilrwydd o ryddhau cronfa wrth gefn a gweddill pellach i ategu'r gyllideb cyllid ysgolion cynlluniedig ar gyfer 2019/20.

Cyfeiriodd y Prif Weithredwr at gyfarfod blaenorol y Cyngor a gynhaliwyd ar 20 Chwefror 2018, a phenderfyniad a wnaed yn dilyn ystyried Cyllideb Cronfa'r Cyngor 2018/19, i gyflwyno adroddiad i'r cyfarfod nesaf i ddarparu diweddariad ar unrhyw gyllid untro ychwanegol gan Lywodraeth Cymru i'w ddefnyddio i ariannu gwariant yn ystod y flwyddyn ac felly cynyddu'r lefelau'r arian wrth gefn ar ddiwedd y flwyddyn, gyda blaenoriaeth yn cael ei roi i gymorth ariannol ychwanegol ar gyfer ysgolion. Dywedodd bod yr Awdurdod yn hyderus y byddai Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi cyllid untro ychwanegol yn benodol ar gyfer ysgolion yn 2017/18 yn fuan.

Eglurodd y Prif Weithredwr fod Llywodraeth Cymru, yn yr wythnos ddiwethaf, wedi cyhoeddi cyllid ychwanegol o £428K ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol yn Sir y Fflint; yn benodol ar gyfer y pwysau ar wasanaethau gofal cartref yn ystod y gaeaf, gofal preswyl ac addasiadau i'r cartref. Dywedodd nad oedd rhaid gwario'r arian ar ychwanegiadau ac y byddai'r arian yn cael ei ddyrannu i wariant a oedd eisoes wedi'i gynllunio. Felly byddai'r dyraniad yn lleihau'r gorwariant a ragamcanwyd gan y Cyngor o £428K ar gyfer 2017/18 a byddai'n rhyddhau cronfa wrth gefn o'r un swm i'w ail-ddosbarthu.

Yn dilyn trafodaeth gydag Arweinydd y Cyngor, y Dirprwy Arweinydd, Aelod Cabinet Addysg, a'r Rheolwr Cyllid Corfforaethol, dywedodd y Prif Weithredwr y cynigiwyd bod y Cyngor yn ystyried cynyddu'r £428K sydd ar gael i £460K er mwyn cynyddu'r cyllid ychwanegol sydd ar gael i ysgolion yn 2018/19 i £1.6M. Pwysleisiodd y byddai'r cyllid ychwanegol o 1.71% o Dreth y Cyngor yn cael ei gynnwys yn y cyllid sylfaenol ar gyfer ysgolion flwyddyn ar flwyddyn ond bod y cyllid ychwanegol gan Lywodraeth Cymru yn gyllid 'untro' ac ni fyddai'n rhan o'r cyllid sylfaenol bob blwyddyn.

Eglurodd y Prif Weithredwr y byddai'r Awdurdod yn derbyn £1.427M o gyfalaf pellach gan Lywodraeth Cymru fel ei gyfran ar gyfer cynlluniau ffyrdd ac

atgyweirio yng Nghymru yn ystod y flwyddyn. Eglurodd y Prif Weithredwr ei fod hefyd yn disgwyl y byddai Llywodraeth Cymru yn gwneud cyhoeddiad yn fuan o ran y cyllid untro ychwanegol ar gyfer y flwyddyn hon, a roddir i ysgolion drwy awdurdodau lleol i'w wario ar gyllideb y flwyddyn nesaf. Cynigiwyd, yn dilyn unrhyw gyhoeddiad o'r fath, rhoi unrhyw gyllid untro pellach i ysgolion.

Cynigiodd y Cynghorydd Aaron Shotton gefnogi'r cynnig i gynyddu'r £428K sydd ar gael i £460K, a fyddai'n darparu cyfanswm o £1.6M o fuddsoddiad ychwanegol i ysgolion ar gyfer 2018/19. Croesawodd y datblygiad cadarnhaol gan Lywodraeth Cymru a mynegodd ei werthfawrogiad bod yr angen am gyllid ychwanegol i awdurdodau lleol wedi'i gydnabod a'r argymhelliad bod £460K yn cael ei roi i ysgolion. Dywedodd y Cynghorydd Shotton y byddai'r Cyngor, drwy Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, yn parhau i lobïo Llywodraeth Cymru er mwyn i unrhyw danwariant cyllideb pellach o fewn Llywodraeth Cymru gael ei ddyrannu i awdurdodau lleol ac yn benodol ar gyfer darpariaeth addysg.

Croesawodd y Cynghorydd Richard Jones y cyllid ychwanegol ond pwysleisiodd fod angen bod yn ofalus oherwydd bod y £460K ac unrhyw gyllid ychwanegol arall a dderbynir gan Lywodraeth Cymru yn gyllid untro ac ni fyddai'n gynaliadwy ar gyfer ysgolion yn y dyfodol.

Cyfeiriodd y Prif Weithredwr at ddau achos o bwysau annisgwyl ar y gyllideb yn ystod y flwyddyn. Gwnaeth sylw ar Lywodraeth Cymru'n tynnu'r Grant Cyflawniad Lleiafrifoedd Ethnig o oddeutu £175K yn ei ôl, a oedd yn cefnogi Saesneg fel Iaith Ychwanegol ac anghenion dysgu teithwyr, a dywedodd bod rhaid cynnal y gwasanaeth hwn. Soniodd hefyd am y pwysau ar y gyllideb cynnal a chadw yn ystod y gaeaf ac eglurodd bod y gyllideb sylfaenol flynyddol ar gyfer y gaeaf wedi'i gwario, ac roedd rhaid tynnu o gronfa wrth gefn y gyllideb cynnal a chadw'r gaeaf. Efallai y bydd y Cyngor hefyd angen cael mynediad at gronfeydd wrth gefn Llywodraeth Cymru ar gyfer cyflenwadau halen. Dywedodd y byddai'n rhaid i'r Cyngor ail-adeiladu cronfa wrth gefn ar gyfer gaeaf 2019/20.

Croesawodd y Cynghorydd David Healey y cyllid ychwanegol ar gyfer ysgolion ond ail-bwysleisiodd y safbwynt a fynegwyd gan y Cynghorydd Richard Jones, sef bod angen i ysgolion fod yn ofalus oherwydd dim ond rhan o'r cyllid ychwanegol oedd wedi'i warantu ar gyfer blynyddoedd i ddod. Pwysleisiodd yr angen i lobïo i barhau i sicrhau bod Llywodraeth Cymru yn cynhyrchu 'bargen decach' i Sir y Fflint a oedd yn gyngor a ariennir yn isel. Gwnaeth sylw hefyd ar yr angen i lobïo Llywodraeth y DU mewn perthynas â'r dyfarniadau cyflog cenedlaethol a ddylai gael eu hariannu'n genedlaethol ac nid eu rhoi i awdurdodau lleol neu ysgolion, ac i roi diwedd ar y polisi trosfwaol o galedi ariannol a oedd yn achosi trallod ar draws y DU.

**PENDERFYNWYD:**

Nodi'r adroddiad.

## 115. ISAFSWM DARPARIAETH REFENIW - POLISI 2018/19

Cyflwynodd y Rheolwr Cyllid Corfforaethol yr adroddiad i gyflwyno argymhellion y Cabinet i isod Isafswm Darpariaeth Refeniw synhwyrol er mwyn

ad-dalu dyled, ac i adrodd yn ôl ar statws yr adolygiad parhaus o bolisi isafswm darpariaeth refeniw ac unrhyw gyngor pellach am y dewisiadau i ddiwygio'r polisi.

Darparodd y Rheolwr Cyllid Corfforaethol wybodaeth gefndirol a chyfeiriodd at yr adolygiad diweddar o ddull y Cyngor o gyfrifo'r polisi Isafswm Darpariaeth Refeniw a'r manteision o newid i fodel arall yn debyg i lawer iawn o awdurdodau lleol yn Lloegr. Adroddodd ar y tri phrif opsiwn i'w hystyried a'r gwahaniaeth rhwng y dulliau llinell syth a blwydd-dal a nodwyd yn yr adroddiad. Eglurodd y Rheolwr Cyllid Corfforaethol pam y ffafriwyd y dull llinell syth yn adolygiad 2016/17 a pham y gellir ystyried y dull blwydd-dal yr un mor synhwyrol. Tynnodd sylw ar y tabl yn yr adroddiad a oedd yn crynhoi'r gwahaniaeth yn yr Isafswm Darpariaeth Refeniw a godwyd am wariant cyfalaf cronfa'r Cyngor heb ei dalu, sydd wedi'i ariannu gan fenthyca â chymorth a benthyca digymorth gan ddefnyddio'r dull llinell syth presennol a'r dull blwydd-dal am y 50 mlynedd nesaf.

Wrth ddod i gasgliad, dywedodd y Rheolwr Cyllid Corfforaethol fod synhwyroldeb yn gysyniad goddrychol ac felly ni allai unrhyw un o'r dulliau neu'r opsiynau a ddisgrifiwyd gael eu hasesu fel y dull cywir gan fod bob dim yn fater o farn. Roedd yn rhaid i'r dewis fod yn synhwyrol ond eto'n gynaliadwy a fforddiadwy dros y tymor hir a chyfrifoldeb y Cyngor oedd penderfynu pa ddull oedd y mwyaf synhwyrol.

Cydnabu'r Prif Weithredwr gymhlethdod y pwnc ac fe soniodd am y gwaith a wnaed ar yr adolygiad o'r polisi Isafswm Darpariaeth Refeniw y llynedd. Darparodd wybodaeth gefndirol a chyd-destun yr adolygiad brys o'r polisi Isafswm Darpariaeth Refeniw, yn dilyn argymhelliad a wnaed drwy adolygiad annibynnol diweddar o sefyllfa ariannol y Cyngor. Dywedodd y Prif Weithredwr, yn dilyn trafodaethau pellach gyda Swyddfa Archwilio Cymru ac ymgynghorwyr cadwedig, Arlingclose, bod swyddogion yn hyderus i argymell bod opsiwn 2, y dull blwydd-dal, yn ddull synhwyrol, cyson gyda chanllawiau, ac yn opsiwn 'agored' i'w ystyried gan y Cyngor.

Dywedodd y Cynghorydd Richard Jones nad oedd yn cefnogi'r argymhelliad ar gyfer opsiwn 2, gan nad oedd yn teimlo ei fod yn synhwyrol nac yn gynaliadwy oherwydd y byddai cynnydd yn y blynyddoedd i ddod. Cyfeiriodd at adroddiad mewn cyfarfod Cabinet yn 2016 a'r cyngor a'r penderfyniad a wnaed ar yr adeg honno o ran synwyroldeb a'r Isafswm Darpariaeth Refeniw. Awgrymodd parhau â'r dull llinell syth ar gyfer yr Isafswm Darpariaeth Refeniw er lles y cynllun ariannol tymor canolig.

Darparodd y Prif Weithredwr a'r Rheolwr Cyllid Corfforaethol eglurder pellach mewn ymateb i'r pryderon a godwyd gan y Cynghorydd Jones a dywedasant fod y dull blwydd-dal yr un mor synhwyrol â'r dull llinell syth presennol ac nid oedd y dull blwydd-dal am gostio mwy i'r Cyngor nac ychwaith i drethdalwyr Sir y Fflint gan ei fod yn ystyried gwerth amser arian.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Dave Mackie at y term 'oes yr ased' yn yr adroddiad a gofynnodd a oedd hyn yr un fath â hyd y benthyciad. Mynegodd bryder o ran os fyddai hyd y benthyciad yn fyrrach nag 'oes yr ased' efallai na fyddai arian digonol ar gael yn y sefyllfa honno gan y byddai'r arian yn cael ei gredydu am gyfnod hirach. Cyfeiriodd hefyd at y frawddeg olaf ym mharagraff 1.08 yr adroddiad a oedd yn cyfeirio at y posibilrwydd o ganllaw wedi'i

ddiweddaru yn ddiweddarach yn y flwyddyn gan Lywodraeth Cymru ar osod y polisi Isafswm Darpariaeth Refeniw a gofynnodd a fyddai'n well aros nes bod y canllaw wedi'i dderbyn cyn newid yr Isafswm Darpariaeth Refeniw eto.

Eglurodd y Prif Weithredwr, bod y canllaw presennol ar gyfer y DU yn berthnasol i Gymru a dywedodd na fyddai mantais o aros, yn seiliedig ar brofiad blaenorol, gan bod disgwyl i'r canllaw newydd ar gyfer Cymru fod yn un fath â'r canllaw Saesneg newydd. Cyfeiriodd hefyd at yr ystyriaethau ariannol a phwysleisiodd fod y Cyngor wedi gorfod mabwysiadau polisi Isafswm Darpariaeth Refeniw ar gyfer 2017/18 erbyn 31 Mawrth 2018 a phe bai'r Cyngor yn cymeradwyo'r dull blwydd-dal, byddai'n rhyddhau arian yn 2017/18 ac yn y blynyddoedd i ddod. Ymatebodd y Rheolwr Cyllid Corfforaethol i'r pryderon a fynegwyd gan y Cynghorydd Mackie ynglŷn ag 'oes yr ased' a chyfeiriodd at wariant hanesyddol a hyd bywyd yr asedau ar gyfartaledd, sef 50 mlynedd, a chostau benthyca.

Pwysleisiodd y ddau swyddog fod rhaid gwneud penderfyniad ynglŷn â'r Isafswm Darpariaeth Refeniw ar sail gosod polisi synhwyrol fel rhan o'r Strategaeth Ariannol Tymor Canolig, ac ni ddylid gwneud y penderfyniad fel mesur tymor byr i gefnogi'r broses o bennu'r gyllideb flynyddol.

Dywedodd y Cynghorydd Derek Butler ei fod yn cefnogi'r argymhelliad i gymeradwyo opsiwn 2 a oedd wedi'i gefnogi gan Swyddfa Archwilio Cymru ac ei argymell yn synhwyrol gan swyddogion, a dywedodd fod y sail resymegol wedi'i nodi'n glir yn yr adroddiad.

Siaradodd y Cynghorydd Bernie Attridge a'r Cynghorydd Arnold Woolley o blaid cymeradwyo opsiwn 2; y dull blwydd-dal.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Mike Peers at neilltuo adnoddau refeniw i dalu dyledion a gofynnodd am fwy o wybodaeth ynghylch faint oedd yn cael ei neilltuo a lle oedd y ffigyrau yn cael eu cyflwyno er gwybodaeth. Tynnodd sylw at y cyfeiriad i ddogfen hanesyddol yn gysylltiedig â'r adroddiad a oedd yn cyfeirio at swm o £22.97M o arian mewnol a oedd yn ymwneud â gwariant cyfalaf, a gofynnodd am eglurhad o ran lle oedd y gronfa yn cael ei chadw ac at ba ddiben. Dywedodd Swyddogion fod yn swm o £22.97M o ganlyniad i lif arian / balansau o ddydd i ddydd ar yr adeg honno. Gofynnodd y Cynghorydd Peers am eglurder pellach o ran canlyniadau'r dull blwydd-dal. Cyfeiriodd y Prif Weithredwr a'r Rheolwr Cyllid Corfforaethol at y graff ar dudalen 48 yr adroddiad a darparu manylion pellach mewn ymateb i'r cwestiynau a godwyd gan y Cynghorydd Peers.

Cefnogwyd yr argymhellion yn yr adroddiad gan y Cynghorydd Aaron Shotton a chawsant eu heilio.

Pan gynhaliwyd pleidlais, cymeradwywyd y dull Opsiwn 2 a argymhellwyd – newid i'r dull blwydd-dal o 2017/18, yn ogystal ag argymhellion 2 a 3 fel nodwyd yn yr adroddiad.

**PENDERFYNWYD:**

(a) Bod Aelodau yn cymeradwyo gwariant cyfalaf heb ei ariannu Cronfa'r Cyngor, newid y polisi Isafswm Darpariaeth Refeniw ar gyfer benthyca â chymorth a benthyca digymorth o ddull 'llinell syth' i'r dull 'blwydd-dal' o 2017/18. Byddai hyn yn golygu:-

- Byddai balans hanesyddol y gwariant cyfalaf sy'n ddyledus wedi ei gyllido o fenthyca â chymorth, a osodwyd ar 31 Mawrth 2016, yn cael ei ddarparu ar ei gyfer ar sail dull blwydd-dal dros y 49 mlynedd sy'n weddill (gan y newidiwyd i linell syth dros 50 mlynedd yn 2016/17).

- Bydd gwariant cyfalaf 2016/17 wedi ei gyllido o fenthyca â chymorth a benthyca digymorth (a blynyddoedd i ddod) yn cael ei ddarparu ar ei gyfer yn seiliedig ar oes yr ased ar sail blwydd-dal.

(b) Bod Aelodau'n cymeradwyo'r Cyfrif Refeniw Tai:-

- Bod Opsiwn 2 (Dull Nawdd Cyfalaf Gofynnol) yn cael ei ddefnyddio ar gyfer cyfrif Isafswm Darpariaeth Refeniw'r Cyfrif Refeniw Tai yn 2018/19 ar gyfer yr holl wariant cyfalaf sy'n cael ei ariannu gan ddyled.

(c) Bod Aelodau yn cymeradwyo fod yr Isafswm Darpariaeth Refeniw ar fenthyciadau gan y Cyngor i NEW Homes i adeiladu cartrefi fforddiadwy drwy'r Rhaglen Tai ac Adfywio Strategol (sy'n gymwys fel gwariant cyfalaf yn nhermau cyfrifeg) fel a ganlyn:-

- Ni wneir Isafswm Darpariaeth Refeniw yn ystod y cyfnod adeiladu (sy'n fyr) gan nad yw'r ased mewn defnydd ac nad oes unrhyw fudd o'i ddefnydd.

- Unwaith mae'r asedau'n cael eu defnyddio, bydd ad-daliadau cyfalaf yn cael eu gwneud gan NEW Homes. Bydd Isafswm Darpariaeth Refeniw'r Cyngor yn gyfartal â'r ad-daliadau a wnaed gan NEW Homes. Bydd yr ad-daliadau a wneir gan NEW Homes yn cael eu dosbarthu, yn nhermau cyfrifeg, fel derbyniadau cyfalaf, ac ni ellir defnyddio'r rhain ddim ond i ariannu gwariant cyfalaf neu ad-dalu dyled sy'n ffurf o isafswm darpariaeth refeniw. Bydd yr ad-daliad cyfalaf/derbyniadau cyfalaf yn cael eu neilltuo i ad-dalu dyled, a dyma yw polisi Isafswm Darpariaeth Refeniw y Cyngor i ad-dalu'r benthyciad.

## 116. RHEOLAU'R WEITHDREFN ARIANNOL

Cyflwynodd y Rheolwr Cyllid Corfforaethol adroddiad i ddarparu'r Rheolau Gweithdrefn Ariannol diweddaraf fel y manylwyd yn Atodiad A yr adroddiad. Darparodd wybodaeth gefndirol fod y Rheolau Gweithdrefn Ariannol drafft wedi'u cyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio a Phwyllgor y Cyfansoddiad a Gwasanaethau Democrataidd a bod y ddau bwyllgor wedi penderfynu cyfeirio'r Rheolau Gweithdrefn Ariannol at y Cyngor i'w cymeradwyo. Dywedodd bod crynodeb o'r newidiadau i'r Rheolau Gweithdrefn Ariannol i'w gael ym mharagraff 1.04 yr adroddiad.

Mynegodd y Cynghorydd Richard Jones bryder o ran y newid i swm y trosglwyddiad ariannol a oedd wedi cynyddu o £75K i £100K. Eglurodd pam ei fod yn credu bod y cynnydd i £100K yn amhriodol a dywedodd nad oedd cyllidebau wedi cynyddu. Cefnogodd y Cynghorydd Jones y cynnig i gymeradwyo'r Rheolau Gweithdrefn Ariannol, yn amodol ar y trosglwyddiad ariannol presennol o £75K yn cael ei ostwng i £50K i arfer gwell rheolaeth. ,Eiliwyd hyn.

Eglurodd y Rheolwr Cyllid Corfforaethol fod trosglwyddiad ariannol o £100K yn ganran isel iawn yng nghyd-destun y gyllideb gyffredinol o £255M a dywedodd fod pob trosglwyddiad ariannol yn cael ei adrodd i'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau Corfforaethol pan oedd cael ei wneud ac roedd rheolaeth a gydlynwyd yn ganolog yn cael ei weithredu gan y tîm cyfrifyddiaeth. Cytunwyd y byddai'r gais 'cronnus' yn cael ei ychwanegu at fersiwn derfynol y Rheolau Gweithdrefn Ariannol.

Awgrymodd y Cynghorydd Mike Peers y dylid nodi'r dyddiad a'r flwyddyn roedd y Rheolau Gweithdrefn Ariannol yn dod i rym yn llawn ar dudalen flaen y rheolau. Cyfeiriodd at dudalen 83, paragraff 3.3.1, yr adroddiad a'r wybodaeth bod yr adnoddau a ddyrannwyd yn cael eu defnyddio ar gyfer y diben a fwriadwyd ac yn cael eu cyfri'n briodol, a gofynnodd a oedd modd darparu manylion o ran lle oedd yr adnoddau yn cael eu dyrannu a'r gwariant parhaus. Ar dudalen 86, paragraff 3.3.2, roedd yr egwyddor allweddol cyntaf yn cyfeirio at awdurdodi trosglwyddiadau cyllideb yn ymwneud â newid defnydd neu bolisi, ac nid oedd yr adroddiad yn nodi pwy ddylai awdurdodi'r trosglwyddiadau hyn ac awgrymodd y dylid cynnwys yr wybodaeth hon.

Eglurodd y Rheolwr Cyllid Corfforaethol fod awdurdodiad yn dibynnu ar a oedd y trosglwyddiad yn addasiadau cyfrifo neu'n ffurf ar drosglwyddiad ariannol ac eglurodd y broses a'r diben ym mhob achos. Ymatebodd y Rheolwr Cyllid Corfforaethol hefyd i'r ymholiad ynghylch y dyraniad o adnoddau ac eglurodd bod adnoddau yn cael dyrannu i feysydd gwasanaeth yn unol â'r cyllidebau a gymeradwywyd ac yn cael hadrodd yn yr adroddiad monitro cyllideb misol lle roedd y cyfansymiau yn cael eu dangos yn ôl portffolio.

Gofynnwyd i Aelodau bleidleisio ar y cynnig a gyflwynwyd gan y Cynghorydd Richard Jones i gymeradwyo'r Rheolau gweithdrefn ariannol, yn amodol ar newid swm y trosglwyddiad ariannol o £75K i £50K. Pan gafwyd pleidlais, gwrthodwyd y cynnig.

Cyflwynwyd y cynnig gwreiddiol, i Aelodau bleidleisio ar yr argymhelliad fel y manylwyd yn yr adroddiad, gan y Cynghorydd Bernie Attridge ac eiliwyd y cynnig gan y Cynghorydd Derek Butler. Yn dilyn pleidlais, cymeradwywyd yr argymelliad.

**<u>PENDERFYNWYD</u>**

Cymeradwyo'r Rheolau Gweithdrefn Ariannol wedi'u diweddaru.

## 117. DATGANIAD AR BOLISÏAU TÂL AR GYFER 2018/19

Cyflwynodd yr Uwch Reolwr, Adnoddau Dynol a Datblygu Sefydliadol yr adroddiad i geisio cymeradwyaeth ar gyfer y Datganiad ar Bolisïau Tâl ar gyfer 2018/19. Eglurodd bod y Datganiad ar Bolisïau Tâl yn crynhoi ymagwedd y sefydliad tuag at gyflog a thâl ac yn gosod hyn o fewn cyd-destun sefydliadol, rhanbarthol a chenedlaethol. Roedd wedi'i ddiweddaru er mwyn rhoi golwg gynhwysfawr o ymagwedd y Cyngor tuag at dâl ei weithlu.

Dywedodd yr Uwch Swyddog fod y datganiad eleni yn gyson â'r blaenorol ac, er nad oedd newid i'r egwyddorion arfaethedig nac ychwaith i'r ymagwedd at dâl, roedd rhai adrannau ychwanegol, fel y manylwyd yn yr adroddiad. Tynnodd sylw at adrannau 10 ac 11 yn yr adroddiad a oedd wedi cael eu hail-ysgrifennu ac yn cynnwys mwy o fanylion ar rôl y Cyrff Trafod Cenedlaethol a Dyfarniadau Tâl a'r Cyflog Byw Cenedlaethol a'r effaith hyd yma ac wrth symud ymlaen. Rhoddodd ragor o fanylion am Adran 11 a'r trafodaethau parhaus ar lefel genedlaethol mewn perthynas â'r dyfarniad cyflog ar gyfer 2018, a'r newidiadau arfaethedig i'r golofn gyflog o 2019 ymlaen. Dywedodd y cafwyd cynnig ffurfiol gan y cyflogwyr cenedlaethol ym mis Rhagfyr a gafodd ei wrthod gan undebau llafur a bod yr undebau llafur wrthi'n cynnal pleidlais ymysg eu haelodau. Disgwyliwyd canlyniad y bleidlais ym mis Mawrth, ac o ganlyniad efallai y byddai newid pellach i'r polisi tâl. Dywedodd yr Uwch Reolwr y byddai adroddiad llawn, yn manylu ar holl oblygiadau ariannol ac fel arall unrhyw gytundeb o'r fath a wneir, yn cael ei gyflwyno i'r Cyngor llawn cyn gynted â phosibl. Wrth ddod i gasgliad, manylodd ar beth fyddai goblygiadau'r dyfarniad cyflog, pe bai'n cael ei dderbyn, ar yr holl bwyntiau colofn gyflog staff a'r effaith dros ddwy flynedd.

Dywedodd y Prif Weithredwr fod y Cyngor yn ddiweddar wedi cwblhau ei Archwiliad Cyflogau Cyfartal llawn cyntaf ers dechrau'r Cytundeb Statws Sengl, a rhannwyd hyn gyda'r undebau llafur a oedd yn fodlon gyda'r canlyniad. Dywedodd nad oedd gan y Cyngor unrhyw achos presennol neu hanesyddol o dâl anghyfartal heb ei ddatrys a allai fod yn wahaniaethol.

Wrth gyfeirio at dudalen 146 yr adroddiad ynglŷn â thaliadau bonws a thâl ar sail perfformiad, holodd y Cynghorydd Mike Peers a ddylid rhoi ystyriaeth i a ddylai gweithwyr gael gwerthusiadau blynyddol yn gysylltiedig â thâl ar sail perfformiad i fod yn gyson â'r trefniadau ar gyfer Prif Swyddogion. Gofynnodd a oedd modd i'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau Corfforaethol ystyried hyn.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Peers hefyd at y cyfeiriad i'r talebau gofal plant ar dudalen 152 yr adroddiad, a dywedodd y byddai'r talebau hyn yn cael eu disodli gan gynllun gofal plant di-dreth newydd, a gefnogir gan lywodraeth y DU o fis Ebrill 2018, a dywedodd bod rhaid cynnwys hyn yn y Datganiad ar Bolisïau Tâl.

Mewn ymateb i'r ymholiadau a godwyd gan y Cynghorydd Peers, dywedodd y Prif Weithredwr nad oedd y Cyngor yn gweithredu taliadau bonws. Wrth drafod y pwnc o dâl ar sail perfformiad, dywedodd hefyd nad oedd y Cyngor yn gweithredu taliadau chwyddo yn ogystal â pherfformiad cyflog, fodd bynnag, roedd hawl i ddatblygiad cyflog cynyddrannol yn flynyddol sef y system roedd y Cyngor yn ei defnyddio. Nid oedd y system werthuso yn gysylltiedig â'r system gynyddrannol ar wahân i Brif Swyddogion.

Cwestiynodd y Cynghorydd Richard Jones swm y cyllid a oedd wedi'i neilltuo gan y Cyngor ar gyfer codiadau cyflog a'r effaith dros ddwy flynedd. Gwnaeth yr Uwch Reolwr sylw ar yr angen am fodelu manylach a dywedodd y byddai adroddiad pellach yn cael ei gyflwyno i'r Cyngor pan oedd y gwaith hwn wedi'i gwblhau.

Cefnogwyd yr argymhelliad yn yr adroddiad gan y Cynghorydd Bernie Attridge a cafodd ei eilio. Ar ôl ei roi i bleidlais, cymeradwywyd yr argymhelliad.

**PENDERFYNWYD:**

(a) Cymeradwyo'r Datganiad Ar Bolisïau Tâl ar gyfer 2018/19 sydd ynghlwm wrth yr adroddiad; a

(b) Bod y Datganiad Ar Bolisïau Tâl ar gyfer 2018/19 yn cael ei ddiwygio i adlewyrchu y bydd y cynllun gofal plant di-dreth newydd, a gefnogir gan lywodraeth y DU, yn disodli'r talebau gofal plant presennol o fis Ebrill 2018.

## 118. AELODAU'R WASG A'R CYHOEDD YN Y CYFARFOD

Roedd un aelod o'r wasg a 3 aelod o'r cyhoedd yn bresennol.

(Dechreuodd y cyfarfod am 2.00 pm a daeth i ben am 4.34 pm)

..................................................

**Cadeirydd**